



## Cyflwyniad i Raglennu BBC Micro:Bit

Y Rhaglen:



*Sylwch: Dim ond un bloc 'ar ddechrau' ac un bloc 'am byth' ddylai fod gennych chi mewn unrhyw raglen.*


Gallwch glicio a llusgo blociau codio o'r ddewislen i mewn i'ch rhaglen:




## Her Un: Y Sgrin Gychwyn

Sefydlu eich dilyniant cychwynnol eich hun ar gyfer eich Micro:Bit.

Gallwch ddylunio eich delwedd gychwynnol eich hun drwy glicio ar y sgwariau yn y bloc 'dangos leds'.



Neu cewch ddefnyddio'r bloc 'dangos eicon' er mwyn dewis delwedd.



Bydd angen i chi wedyn benderfynu am ba hyd y bydd y ddelwedd yn aros ar y sgrîn drwy ychwanegu bloc 'oedi' oddi tano.

*Mesurir yr oediad mewn microeiliadau (ms). Mae 1000ms mewn un eiliad.*

Gallwch ychwanegu neges gan ddefnyddio'r bloc 'dangos testun'.



Mae'n cymryd amser i bob llythyren sgrolio ar draws y sgrin, felly mae'n syniad da cadw unrhyw negeseuon yn fyr.

Efallai yr hoffech ychwanegu bloc 'clirio sgrin' cyn dangos y neges.

Nawr ceisiwch gael y neges i ymddangos cyn y ddelwedd.



Gallwch ddefnyddio'r rheolyddion efelychu i brofi eich rhaglen. Bydd y botwm saeth gylchol yn ailgychwyn y rhaglen.



### Ychwanegol: Animeiddiad Sgrin Gychwyn

Allwch chi gynhyrchu animeiddiad byr gan ddefnyddio dau lun a'r 'bloc ailadrodd' yn lle cael un ddelwedd?

*Er enghraifft:*



Ceisiwch gopïo hwn yn eich rhaglen.


Sylwch fod hwn yn defnyddio bloc gwyrdd o god o'r ddewislen Dolennau.

Gallwch benderfynu sawl gwaith mae'n ailadrodd yn y bloc gwyrdd trwy newid y rhif.

Gallwch roi cynnig ar wahanol ddelweddau ond cofiwch ddefnyddio saib ar ôl pob un bob amser neu bydd yn ymddangos ac yn diflannu'n rhy gyflym.

## Her Dau: Defnyddio Botymau

Mae gan y Micro:Bit sawl *mewnbwn* gwahanol gan gynnwys dau fotwm.



Gan mai dim ond gyda llygoden y gellir clicio ar yr efelychydd, ni allwn wasgu'r ddau fotwm ar yr un pryd, felly mae arno fotwm gwyn ychwanegol wedi'i labelu A+B i'w ddefnyddio.

*Sylwch: Dim ond ar ôl i chi gynnwys ei floc yn eich cod y bydd y botwm hwn yn ymddangos.*

Gallwn raglennu'r Micro:Bit i wneud pethau gwahanol yn dibynnu ar ba fotwm sy'n cael ei wasgu.

Mae tri dewis o fewnbwn botwm:



Ceir hyd i'r bloc hwn i'w yn newislen y blociau Mewnbwn.

Gallwn nawr ddweud wrth y Micro:Bit am ddangos delwedd wahanol ar gyfer pob botwm sy'n cael ei wasgu.

*Er enghraifft:*




Gallech hefyd gynnwys negeseuon a/neu animeiddiadau ar gyfer pob botwm yn yr un ffordd ag y gwnaethom ar gyfer y sgrin gychwyn yn Her Un.

### Ychwanegol: Mewnbynnau Eraill

Mae gan y Micro:Bit *synwryddion* sy'n ymwybodol ei fod yn symud, yn ysgwyd, yn gogwyddo, yn cwmpo ac yn taro rhywbeth.

Gellir ychwanegu'r rhain trwy ddefnyddio'r bloc mewnbwn 'ar ysgwyd' fel y gwelir yma:



Os byddwch chi'n cynnwys y tri bloc yma yn eich cod, bydd eich efelychydd yn newid eto. Ychwanegir botwm ysgwyd a bydd y Micro:Bit yn gwro pan fyddwch yn symud y llygoden drosto.

Sut bydd eich Micro:Bit yn ymateb i gael ei ysgwyd neu ei wro?

### Her Tri: Ychwanegu Sain

Mae gan y Micro:Bit seinydd sy'n gallu chwarae amrywiaeth o wahanol donau.



Mae'r blociau ar gyfer cynnwys sain yn adran Cerddoriaeth y ddewislen.

Gallwch gynnwys blociau alawon, blociau nodau a/neu flociau tôn ganu


Ceisiwch ychwanegu gwahanol effeithiau sain at bob un o'ch blociau mewnbwn.

Cynhwyswch y bloc 'gosod lefel sain' yn adran 'ar ddechrau' eich rhaglen a newidiwch y rhif i 50. Bydd hyn yn galluogi pobl i glywed eu Micro:Bit eu hunain ar ôl iddo gael ei lawrlwytho heb foddi sŵn rhai eraill.



## Lawrlwytho i BBC Micro:Bit

Dim ond blaen y cyfrifiadur Micro:Bit y mae'r efelychydd yn ei ddangos. Ar gyfer y cam hwn mae angen inni edrych ar y cefn.



Yn gyntaf bydd angen i ni gysylltu pecyn batri i'r Micro:Bit, yna ei droi i fynd er mwyn rhedeg y rhaglen brawf sydd eisoes wedi'i gosod arno.

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin i wneud yn siŵr bod yr holl fewnbynnau a'r synwryddion yn gweithio.


Nawr cysylltwch y Micro:Bit i'r cyfrifiadur gyda'r ceblau a ddarperir.

Ar ôl ei blygio i mewn, dewiswch y botwm ... wrth ymyl y botwm Lawrlwytho:



Dilynwch y cyfarwyddiadau i gysylltu eich Micro:Bit

Nawr, pwyswch y botwm Lawrlwytho a ddylai edrych fel hyn:



Nawr gallwch chi ddad-blygio'r Micro:Bit o'r cyfrifiadur a phrofi eich rhaglen.